



Sialens Plant Dewi

Ar Fawrth 19eg, gwnaethpwyd y penderfyniad aruthrol i gau holl prosiectau Plant Dewi ar draws yr esgobaeth oherwydd y pandemig. Serch hynny, cychwynnodd y tîm ffordd o godi arian a fu'n llwyddiant ysgubol, yn ôl Catrin Evans

Yr oeddem ni, fel pawb arall, yn wynebu'r ansicrwydd enfawr. Yr oedd gennym gymaint o gwestiynau: sut fyddai ein teuluoedd yn ymdopi, sut allen ni eu cefnogi, pryd fyddem ni'n gallu gweld ein gilydd eto a beth fyddai'n digwydd i'r elusen? Yr oedd adroddiadau y byddai elusennau yn y DU yn colli £4bn yn 12 wythnos gyntaf y cloi, felly sut allen ni ddod ag arian i fewn i'n cynnal?



Teimlai'r timau Plant Dewi yng Nghaerfyrddin a Doc Penfro ei fod yn gyfle da i ni wneud ymgyrch codi arian ar-lein a dangos ein hymrwymiad. Er ein bod wastad wedi mynychu digwyddiadau codi arian a drefnwyd gan ein cefnogwyr, doedden ni ddim wedi gwneud dim ein hunain! Dyma ein cyfle.



Fe ddefnyddion ni sialens 2.6 Marathon Llundain fel thema ac, ar Fai 1af, dechreuodd tîm o 10 sialens bersonol am 26 diwrnod. Seiclododd Catrin 26 munud pob dydd a Jane 2.6 milltir y dydd; yfodd Sam 2.6 litr o ddŵr y dydd; gwnaeth Christina a Carys ymarfer corff am 26 munud y dydd; dysgodd Vicky Gymraeg am 26 munud y dydd; aeth Marian i fyny ac i lawr y grisiau 26 gwaith y dydd; gwnaeth Flora yoga am 26 munud y dydd; creodd Carol baentiad newydd bob dydd (*gweler y llun*) a gwnaeth Peter 26 'pressup/situp' y dydd.

Fe wnaethon ni hefyd osod sialens tîm- cerddon ni'r pellter o'r swyddfa yng Nghaerfyrddin i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi bob wythnos ym mis Mai; cyfanswm o 46 milltir rhyngom ni. Yr ydym wedi cerdded gymaint â hynny, a'r rhan fwyaf o'r ffordd nôl, ac roedd yn bendant wedi'n helpu i symud.

Lawnsiwyd ein tudalen JustGiving a dechreuodd y cyfraniadau gyrraedd. Roeddem wrth ein bodd gyda'r gefnogaeth, ac, yn y pendraw, codon ni £2,452 (gan gynnwys Cymorth Rhodd) –

swm bendigedig o arian. Hoffem ddiolch i bawb gyfrannodd – roedd yn wych gweld caredigrwydd a haelioni cymaint o bobl a oedd yn wynebu amseroedd anodd.

Daeth y sialens 2.6 â ni at ein gilydd fel tîm pan nad oeddem yn gallu gweld ein gilydd, rhoddodd ffocws mewn adeg anodd tra'n gorfod gweithio o adre, yn cael ein ynysu rhag ein teuluoedd a ffrindiau a wynebu cymaint o ansicrwydd. Hefyd cododd ymwybyddiaeth am Plant Dewi a'r gwaith ardderchog a wneir ar draws yr esgobaeth